

Rhif: WG35001



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad - Crynodeb o'r Ymatebion ac Ymateb
Llywodraeth Cymru

Cyflwyno trefn orfodol dosbarthu carcasau defaid
yng Nghymru

Hydref 2018

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.
This document is also available in English.

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
2. Cefndir	4
Trosolwg o'r Ymatebion	5
Crynodeb o'r ymatebion.....	5
Prif Themâu	8
Casgliad.....	9
Ymateb Llywodraeth Cymru.....	10

Cyflwyniad

Ar 31 Mai 2018, lansiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ymgynghoriad ffurfiol i glywed barn am gyflwyno trefn orfodol ar gyfer dosbarthu carcasau defaid yng Nghymru. Parodd yr ymgynghoriad 12 wythnos, gan ddechrau ar 31 Mai 2018 a gorffen ar 23 Awst 2018.

Prif amcan yr ymgynghoriad oedd clywed barn am gyflwyno trefn orfodol ar gyfer dosbarthu carcasau defaid yng Nghymru a chael syniad o'r math o drefn dosbarthu a hysbysu y dylid ei mabwysiadu. Gofynnwyd hefyd ynghylch cyhoeddi amserlenni, cyfleu canlyniadau dosbarthu a hysbysu data yn ehangach.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar gyfer y bobl sy'n gysylltiedig â chynhyrchu a phrosesu carcasau defaid a'i anelu'n bennaf at bawb sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r sector defaid yn cael ei reoleiddio. Rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i randdeiliaid y diwydiant am bwrpas ac amserlen yr ymgynghoriad cyn ei lansio.

Cefndir

Mae gan Gymru ei deddfwriaeth ei hun i sicrhau trefn hysbysu orfodol ar gyfer eidion a moch, 'Rheoliadau Dosbarthau Carcasau Eidion a Moch 2011'. Fel rhan o'r deddfwriaeth hon, mae yna drefn wirfoddol i ladd-dai hysbysu ynghylch carcasau defaid.

Ym mis Hydref 2016, gwnaed Cais am Dystiolaeth ledled y DU ynghylch cylch gwaith y Dyfarnwr Cod Cyflenwi Bwydydd. Gofynnwyd am farn a gwybodaeth am arferion masnachu annheg sy'n effeithio ar y gadwyn cyflenwi bwydydd, a oes angen am weithredu pellach a sut fath o weithredu sydd ei angen. Daeth y cais am dystiolaeth i ben ym mis Ionawr 2017 ac yn y gwerthusiad, cafwyd argymhelliad i gyflwyno trefn orfodol ar gyfer dosbarthu carcasau defaid yn y DU.

Ar wahân i hynny, cysylltodd rhanddeiliaid ffermio â Llywodraeth Cymru i awgrymu ei bod yn cyflwyno trefn hysbysu orfodol ar gyfer defaid yng Nghymru. Mae ein Hundebau Ffermwyr wedi pwysleisio bod trefn hysbysu gyson a thryloyw o fewn y gadwyn gyflenwi yn hanfodol er mwyn rhoi mwy o wybodaeth i'r cynhyrchydd a meithrin hyder y sector prosesu. Am y rhesymau hynny, galwyd am ymgynghoriad cyhoeddus.

Cyn ymgynghori, bu Llywodraeth Cymru'n siarad â byrddau da byw undebau ffermwyr Cymru, Hybu Cig Cymru a'r Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (CLA Cymru).

Mae Defra a Llywodraeth yr Alban wedi cynnal ymgynghoriadau ar wahân ar y mater.

Trosolwg o'r Ymatebion

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad.

Roedd yr ymgynghoriad yn agored i ymatebion rhwng 31 Mai a 23 Awst ac roedd yn bosibl ymateb trwy e-bost, post neu'r porthol ymgynghori. Ar y porthol ymgynghori, roedd yn bosibl ymateb yn ddi-enw, heb ddatgelu cysylltiad â rhanbarth na lleoliad yn y DU. Dim ond ymatebion trwy'r e-bost a'r porthol ymgynghori ddaeth i law.

Cyrhaeddodd 14 o ymatebion cyflawn a 7 o rai anghyflawn yn ystod y cyfnod ymgynghori. Nid ydym wedi cynnwys yr ymatebion anghyflawn yn y dadansoddiad hwn.

Dyma'r ymatebion cyflawn a ddaeth i law:

Corff	Nifer yr Ymatebion	Nifer a Gynrychiolir
Ffermwyr Da Byw Unigol	2	2 Ffermwr
Cymdeithas Ddefaid Genedlaethol Cymru	1	Tua 1400 o aelodau yng Nghymru
NFU Cymru	1	Tua 15,000 o aelodau yng Nghymru
Hybu Cig Cymru	1	1 Corff sy'n cynrychioli cynhyrchwyr a phroseswyr sy'n talu'r ardoll (Tua 25,000 o ddaliadau cig coch)
NFU Scotland	1	Tua 10,000 o aelodau yn yr Alban
Meat and Livestock Commercial Services Ltd	1	1 Corff
Undeb Amaethwyr Cymru	1	Anhysbys
Porthol Ar-lein - Cyflawn	6	6
Porthol Ar-lein - Anghyflawn	7	7

Crynodeb o'r ymatebion

Roedd 10 o gwestiynau yn yr ymgynghoriad, yn gyfuniad o gwestiynau agored a chaeedig. Roedd Cwestiynau 1 - 7 yn holi'n benodol am amcanion yr ymgynghoriad, roedd cwestiynau 8-9 yn holi am yr effeithiau ar y Gymraeg ac roedd cwestiwn 10 yn gofyn am sylwadau ychwanegol.

Mae'r bennod hon yn dadansoddi'r atebion i gwestiynau'r ymgynghoriad. Roedd traean o gwestiynau'r ymgynghoriad yn rhoi'r opsiwn i ymatebwyr ddewis eu hateb yn ogystal â chynnig sylwadau ychwanegol. Rydym wedi'u dangos yn y tablau isod, gan ddangos ai

'ydw' neu 'nac ydw' oedd ateb yr ymatebydd. Mae'r rheini nad oedd wedi dewis categori o ateb wedi cael eu nodi fel 'heb ddewis ateb penodol'.

Lle cafwyd sylwadau ychwanegol gan gyrff oedd yn cynrychioli barn grŵp ehangach, rydym wedi'u nodi hwythau ar wahân ac wedi ymdrin â'r prif themâu yn y bennod nesaf.

Cwestiwn 1 - Ydych chi o blaid trefn orfodol dosbarthu carcasau defaid yng Nghymru?

Opsiynau	Nifer a ymatebodd	Canran o'r ymateb
Ydw	10	91%
Nac ydw	1	9%
'Heb ddewis ateb penodol'	3	

Cwestiwn 2 - Os ydych chi'n lladd-dy, ydych chi'n defnyddio system dosbarthu carcasau defaid ar hyn o bryd?

Ni chafwyd unrhyw ymatebion gan broseswyr / lladd-dai.

Cwestiwn 3 - Rydym yn cynnig esemptiad i ladd-dai sydd â thrwybwn o lai na 1,000 o ddefaid bob wythnos ar gyfartaledd blynyddol. Ydych chi'n credu bod y trothwy hwn wedi'i osod ar y lefel gywir?

Opsiynau	Nifer a ymatebodd	Canran o'r ymateb
Ydw	6	50%
Nac ydw	6	50%
'Heb ddewis ateb penodol'	1	

Roedd y sylwadau ychwanegol a gafwyd yn gymysg eu barn o ran trothwy'r esemptiad. Roedd canran gyfartal yn cytuno â'r trothwy ac yn cefnogi'r rhesymau drosto ac yn anghytuno ac yn cynnig trothwy is o 500. Daeth un sylw sydd i raddau helaeth yn adlewyrchu barn y rheini oedd yn cytuno â'r trothwy ar gyfer yr esemptiad:

“Given the current structure of the Welsh abattoir sector, the stated threshold would seem appropriate. A threshold of 1,000 sheep a week will ensure that the vast majority of sheep slaughtered in Wales would be reported. In 2017, four abattoirs in Wales would have exceeded the stated threshold and accounted for over 95% of the throughputs at Welsh abattoirs. The stated threshold will also ensure that smaller plants, that generally would not have the IT requirements or resources to report in a timely manner, are not prohibitively burdened by the implementation of the new regulation. While it is understood that agriculture and its related regulations are devolved, consideration should be given to the thresholds”.

Ar y llaw arall, dyma sylw a ddaeth i law o blaid gostwng y trothwy:

“We believe that the threshold should be set at 500 sheep per week which would then bring in 97.2% of the sheep slaughtered annually in Wales under the regulation. This would then bring in 5 abattoirs as opposed to 4 if the threshold remained at 1,000.

Lamb slaughter is seasonal at some plants and as the figure is based on an annual average significant weekly numbers could be killed during the summer and autumn in some plants

which would not come under the regulation if their average figure over 12 months is 1000 sheep or less per week.”

Prif Themâu

Cododd nifer o themâu allweddol wrth ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Lle roedd mwy na 50% o'r ymatebwyr naill ai wedi cofnodi'r un ymateb neu wedi rhoi sylwadau tebyg, rydym wedi'u crynhoi gyda'i gilydd gan roi'r themâu allweddol sydd gennym isod:

Cyflwyno trefn orfodol dosbarthu carcasau defaid - roedd mwyafrif yr ymatebion yn dangos y byddai'r diwydiant cig coch o blaid gweld trefn orfodol yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru ar gyfer dosbarthu carcasau defaid.

Esemptiad i ladd-dai sydd â thrwybwn o lai na 1,000 o ddefaid yr wythnos ar gyfartaledd blwyddyn - Ni chafwyd consensws ynghylch trothwy'r esemptiad, gyda 50% yn cytuno a 50% yn anghytuno. Gellir casglu o hynny bod y diwydiant yn rhanedig ar y pwnc hwn a bydd angen cynnal rhagor o ymchwil a siarad â rhanddeiliaid i benderfynu ar bolisi'r dyfodol. Roedd nifer o'r farn y dylai trothwy'r esemptiad fod yn is gan gynnig 500 o ddefaid yr wythnos fel ffigur posib; y gred yw y byddai lladd-dai llai'n dosbarthu carcasau a byddai trothwy is yn caniatáu hynny.

Yr wybodaeth y dylai lladd-dai ei hysbysu i'w cyflenwyr - Cafwyd consensws o blith y lladd-dai y dylid hysbysu gwybodaeth am bwysau, dosbarth braster, pwysau sy'n gig, rhif tag, nifer a leddir a charcasau sydd wedi'u condemnio. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o blaid gweld yr wybodaeth hon yn cael ei rhannu o fewn 24 awr.

Cyhoeddi gwybodaeth - roedd yr ymatebion yn dangos bod cytundeb ar draws y diwydiant o blaid cyhoeddi gwybodaeth gyfanredol yn ogystal â rhestr o'r prisiau a'r taliadau, gyda 92% o'r ymatebion yn dangos eu bod yn cytuno. Ni welwyd themâu allweddol o ran cynnwys yr wybodaeth y dylid ei chyhoeddi fel rhan o'r wybodaeth gyfanredol, felly bydd angen mwy o drafod â rhanddeiliaid yn hyn o beth.

Defnyddio grid SEUROP - Yn yr adran sylwadau ychwanegol, un thema a welwyd oedd cytundeb y dylid parhau i ddefnyddio grid SEUROP ar gyfer dosbarthu carcasau yng Nghymru ynghyd â manyleb safonol ar gyfer carcas glân.

Casgliad

Gallwn ragdybio bod yr ymatebion a ddaeth i law yn cynrychioli barn mwyafrif llethol ffermwyr defaid Cymru. O'r cyfanswm o ryw 14,000 o ddaliadau defaid sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru, mae'r NSA ar ei phen ei hun yn cynrychioli 1,400 o aelodau ac mae NFU Cymru yn cynrychioli 15,000 o aelodau ac mae'r FUW yn cynrychioli nifer anhysbys. Ar sail y ffigurau hyn, gallwn deimlo'n ffyddiog bod y canlyniadau'n cynrychioli diwydiant Cymru a bod cefnogaeth o blaid cyflwyno trefn orfodol ar gyfer dosbarthu carcasau defaid yng Nghymru.

Mae'n amlwg o ddadansoddi'r ymatebion bod consensws o blaid cyflwyno trefn orfodol ar gyfer dosbarthu carcasau defaid yng Nghymru ond bod teimlad na ddylem wneud hynny ar ein pen ein hunain ac y dylai'r DU gyfan ei mabwysiadu er sicrhau cysondeb. Ceir cytundeb hefyd y dylai'r holl wybodaeth a gesglir gan broseswyr fod yn dryloyw, fod ar gael i'r cyhoedd ac y dylai ffermwyr a'r diwydiant ehangach gael eu hysbysu ohoni'n gyson. Ond ceir anghytundeb barn ynghylch y math o wybodaeth y dylid ei chasglu a'i hysbysu, y trothwyon hysbysu a manylebau carcasau glân; rhaid trafod y materion hyn ymhellach â'r rhanddeiliaid.

Mae Defra a Llywodraeth yr Alban wedi cynnal ymgynghoriadau tebyg ac mae'r ymatebwyr i'n hymgyngoriad ni o'r farn y dylid ystyried y canlyniadau Seisnig ac Albanaidd ar y cyd â'n rhai ni er mwyn cael persbectif Prydeinig ar gyflwyno trefn hysbysu orfodol ar gyfer defaid.

Cewch weld crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn Lloegr yn:

<https://consult.defra.gov.uk/>

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn yr Alban i'w gweld yma:

<https://beta.gov.scot/publications/consultation-analysis-introduction-mandatory-sheep-carcase-classification-price-reporting/>

Ymateb Llywodraeth Cymru

Cafwyd galw ar draws y diwydiant am gyflwyno trefn orfodol ar gyfer dosbarthu carcassau defaid yng Nghymru ac mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r galw trwy gynnal yr ymgynghoriad ffurfiol hwn. Mae'r ymgynghoriad wedi dangos bod y diwydiant am weld trefn dosbarthu a hysbysu ar gyfer defaid a'i gwneud yn orfodol hefyd hysbysu'r cynhyrchydd o brisiau defaid.

Bydd angen i Lywodraeth Cymru drafod ymhellach ynghylch pa wybodaeth y dylai proseswyr a chyrrff ardoll hysbysu cynhyrchwyr ohoni a byddwn yn bwrw ymlaen â hynny. Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio i roi'r fframwaith deddfwriaethol ar waith ar gyfer trefn orfodol ar gyfer dosbarthu carcassau defaid yng Nghymru.